**EGLWYS PENDREF, RHUTHUN**
**Dydd Sul, 15 Tachwedd 2015**

[Bore Sul ar ol noson arw o wynt a gwlaw corwynt Kate. Y gwynt yn dal i chwythu, ond enfys odidog uwchben Rhuthun wrth cyraedd y capel am y gwasanaeth. Dau niwrnod ar ol yr ymosodiad terfysgol ym Mharis, ac arweinwyr gwledydd y G20 yn cwrdd yn Antakya (neu Antioch yn nyddiau Paul).]

*Ger garwed y gwyntoedd, er dued y nen;*
*Er amled y tònau orchuddiant fy mhen;*
*Cynhyrfed y moroedd, terfysged y byd;*
*Yr Iesu yw Arglwydd y cyfan i gyd:*
*Mae popeth yn dda.*
*[T. Levi]*

Bore da i chi ‘gyd ar fore mwyn, a chroeso i’r gwasanaeth. Gadewch i ni ddechrau drwy gyd-ganu rhif yr EMYN 172 ar ein heistedd.

**EMYN 172 (Am air ein Duw)**

*Peidiwch â bod mewn dyled i neb, ar wahân i'r ddyled o garu eich gilydd. Y mae'r sawl sy'n caru pobl eraill wedi cyflawni holl ofynion y Gyfraith. Oherwydd y mae'r gorchmynion, “Na odineba, na ladd, na ladrata, na chwenych”, a phob gorchymyn arall, wedi eu crynhoi yn y gorchymyn hwn: “Câr dy gymydog fel ti dy hun.” Ni all cariad wneud cam â chymydog. Y mae cariad, felly, yn gyflawniad o holl ofynion y Gyfraith.*
*[RHUFEINIAID 13: 8-10]*

Mae’n rhyfedd sut mae agwedd dyn yn newid wrth iddo heneiddio. Yn blentyn yn yr Ysgol Sul, dwi’n cofio clywed hanesion y pedair Efengyl yn reolaidd. Stori’r geni, galw’r disgyblion, y bregeth a y mynydd, hanes y Pasg:  yr Iesu’n dod i Jeriwsalem ar gefn yr ebol asyn, y swper olaf, y ceiliog yn canu ar Pedr, y croesholiad; a’r atgyfodiad. Fe glywais hefyd am deithiau Paul, a’r Eglwys Fore, ond rhywffordd neu gilydd roedd Actau’r Apostolion a’r llyfrau’n dilyn yn fwy dieithr, ac yn sicr yn anos i’w deall.

Flynyddoedd yn ol, pan bu galw i gyfranu at, neu drefnu gwasanaeth yn y capel, byddai dad wastad yno i roi cyngor am ddarlleniadau addas. Gallwn i wedyn ganolbwyntio ar feddwl am ganeuon i’w canu gan y plant ac yn y blaen! Ond wedi dyddiau dad, bu’n rhaid i fi ddechrau meddwl am y darlleniadau hefyd. A dweud y gwir, yn y galar cyn angladd dad, awgrymodd fy nghefnder o’r Rhondda, y dylswn ddarllen diwedd pumed penod llythyr Paul at y Galatiaid; fel cysur, fel ffordd i weld fod dad wedi ceisio dilyn y llwybr ei hun, fel ffordd i weld fod modd i fi - ac i ni ‘gyd hefyd - ddilyn yr un llwybr.

*Ond ffrwyth yr Ysbryd yw cariad, llawenydd, tangnefedd, goddefgarwch, caredigrwydd, daioni, ffyddlondeb, addfwynder, hunanddisgyblaeth. Nid oes cyfraith yn erbyn rhinweddau fel y rhain. Y mae pobl Crist Iesu wedi croeshoelio'r cnawd ynghyd â'i nwydau a'i chwantau. Os yw ein bywyd yn yr Ysbryd, ynddo hefyd bydded ein buchedd. Bydded ini ymgadw rhag gwag ymffrost, rhag herio ein gilydd, a rhag cenfigenu wrth ein gilydd.*
*[GALATIAID 5: 22-26]*

*Dilyn oen heb boen penyd – dilyn sarn*
*Nid rhagfarn ein drygfyd;*
*Dilyn bloedd y miloedd mud;*
*Maddau bai, meddu bywyd.*

A dyma ddechrau newid agwedd parthed llythyron Paul.

Ry'n ni i gyd yn wahanol, a diolch i'r tragwyddol am hyny! Yn sicr mae'n agweddau ni at ffydd a chrefydd yn dra gwahanol drwy'r byd, yng Ngymru, yn Rhuthun; hyd yn oed yma ym Mhendref efallai. Math o berson dw i sy'n mwynhau darllen ac ystyried canllawiau fel y Gwynfydau. Ymdrechion i gyddwyso doethineb twfn mewn ychydig o adnodau. Egwyddorion mathemategol yn blodeuo'n ddamcaniaethau anhygoel. Rheolau gwyddonol sy'n rhoi strwythr i ddeall y byd materol o'n cwmpas. Englynion sy'n plethu doethineb â thincial y Gymraeg. Gallwch ddychmygu felly y cyfoeth i rywun fel fi sydd i'w gael o ddarllen geiriau Paul.

Wedyn, ychydig wythnosau yn ol, rhoddodd Gwyneth sgwrs i ni ar fore Sul yn sôn am deithiau Paul. Hwnw oedd y sbardun i fynd ati i hel ychydig mwy o hanes yr Iddew o Darsus, a chreu casgliad o fy hoff adnodau o'i eiddo ar gyfer y gwasanaeth y bore 'ma. Fy siwrnai'n dilyn teithiau Paul. A dyma beth sydd gen i ar eich cyfer chi am yr haner awr nesaf.

*Geiriau hud y gwir gredo yn gynig*
*I genedl drwy grwydro.*
*Elai Paul i apelio*
*Â'r llên i gyfiawnhau'r llo.*

Ond cyn bwrw 'mlaen, gadewch i ni gyd-ganu yr EMYN cyntaf, eto ar ein heistedd.

**EMYN 1 (Cydganwn foliant rhwydd)**

*Gyfeillion, os caiff rhywun ei ddal mewn rhyw drosedd, eich gwaith chwi, y rhai ysbrydol, yw ei adfer mewn ysbryd addfwyn. Ond edrych atat dy hun, rhag ofn i tithau gael dy demtio. Cariwch feichiau eich gilydd, ac felly fe gyflawnwch Gyfraith Crist. Oherwydd, os yw rhywun yn tybio ei fod yn rhywbeth, ac yntau yn ddim, ei dwyllo ei hun y mae. Y mae pob un i farnu ei waith ei hun, ac yna fe gaiff le i ymffrostio o'i ystyried ei hun yn unig, ac nid neb arall. Oherwydd bydd gan bob un ei bwn ei hun i'w gario. Y mae'r sawl sy'n cael ei hyfforddi yn y gair i roi cyfran o'i holl feddianau i'w hyfforddwr. Peidiwch â chymryd eich camarwain; ni chaiff Duw mo'i watwar, oherwydd beth bynag y mae rhywun yn ei hau, hyny hefyd y bydd yn ei fedi. Bydd y sawl sy'n hau i'w gnawd ei hun yn medi o'i gnawd lygredigaeth, a'r sawl sy'n hau i'r Ysbryd yn medi o'r Ysbryd fywyd tragwyddol. Peidiwn â blino ar wneud daioni, oherwydd cawn fedi'r cynhaeaf yn ei amser, dim ond ini beidio â llaesu dwylo. Felly, tra bydd amser genym, gadewch ini wneud da i bawb, ac yn enwedig i'r rhai sydd o deulu'r ffydd.*
*[GALATIAID 6: 1-10]*

*Yn awr, felly, nid yw'r rhai sydd yng Nghrist Iesu dan gollfarn o unrhyw fath (neu'n cael eu gweld yn euog yng ngolwg Duw). Oherwydd yng Nghrist Iesu y mae cyfraith yr Ysbryd, sy'n rhoi bywyd, wedi dy ryddhau o afael cyfraith pechod a marwolaeth. Yr hyn oedd y tu hwnt i allu'r Gyfraith, yn ei gwendid dan gyfyngiadau'r cnawd, y mae Duw wedi ei gyflawni. Wrth anfon ei Fab ei hun, mewn ffurf debyg i'n cnawd pechadurus ni, i ddelio â phechod, y mae wedi collfarnu pechod yn y cnawd. Gwnaeth hyn er mwyn i ofynion cyfiawn y Gyfraith gael eu cyflawni ynom ni, sy'n byw, nid ar wastad y cnawd, ond ar wastad yr Ysbryd. Oherwydd y sawl sydd â'u*

*bodolaeth ar wastad y cnawd, ar bethau'r cnawd y mae eu bryd; ond y sawl sydd ar wastad yr Ysbryd, ar bethau'r Ysbryd y mae eu bryd. Yn wir, y mae bod â'n bryd ar y cnawd yn farwolaeth, ond y mae bod â'n bryd ar yr Ysbryd yn fywyd a heddwch. Oherwydd y mae bod â'n bryd ar y cnawd yn elyniaeth tuag at Dduw; nid yw hyny, ac ni all fod, yn ddarostyngiad i Gyfraith Duw. Ni all y sawl sy'n byw ym myd y cnawd foddhau Duw. Ond nid ym myd y cnawd yr ydych chwi, ond yn yr Ysbryd, gan fod Ysbryd Duw yn cartrefu ynoch chwi. Pwy bynag sydd heb Ysbryd Crist, nid eiddo Crist ydyw. Ond os yw Crist ynoch chwi, y mae'r corff yn farw o achos pechod, ond y mae'r Ysbryd yn fywyd ichwi o achos eich cyfiawnhad. Os yw Ysbryd yr hwn a gyfododd Iesu oddi wrth y meirw yn cartrefu ynoch, bydd yr hwn a gyfododd Grist oddi wrth y meirw yn rhoi bywyd newydd hefyd i'ch cyrff marwol chwi, trwy ei Ysbryd, sy'n ymgartrefu ynoch chwi.*

*Am hyny, gyfeillion, yr ydym dan rwymedigaeth, ond nid i'r cnawd i fyw ar wastad y cnawd. Oherwydd, os ar wastad y cnawd yr ydych yn byw, yr ydych yn sicr o farw; ond os ydych, trwy'r Ysbryd, yn rhoi arferion drwg y corff i farwolaeth, byw fyddwch. Y mae pawb sy'n cael eu harwain gan Ysbryd Duw yn blant Duw. Oherwydd nid ysbryd caethiwed sydd unwaith eto'n peri ofn yr ydych wedi ei dderbyn, ond Ysbryd mabwysiad, yr ydym trwyddo yn llefain, “Abba! Dad!” Y mae'r Ysbryd ei hun yn cyd-dystiolaethu â'n hysbryd ni, ein bod yn blant i Dduw. Ac os plant, etifeddion hefyd, etifeddion Duw a chydetifeddion â Christ, os yn wir yr ydym yn cyfranogi o'i ddioddefaint ef er mwyn cyfranogi o'i ogoniant hefyd.*
*[RHUFEINIAID 8: 1-17]*

Gadewch i ni weddïo:

[GWEDDI:] Diolchwn am y cyfle unwaith eto i ddod at ein gilydd fel teulu Pendref ar fore Sul. Er waethaf y newidiadau dibaid o'n cwmpas, dryswch ein bywydau, ein gofidion a'n diffygion, mae'r cyfle i ymdawelu a myfyrio ar fore Sul yn drysor.

Diolchwn am deulu a ffrindiau sy'n cyfoethoci'n bywydau; am atgofion sy'n dod â gwên a deigryn; am awydd i fod yn rhan, i geisio o'r newydd i fyw yn dda, a dilyn yn ol traed esiamplau fel Paul. Diolchwn am wlad mor brydferth i fyw ynddi; lliwiau’r hydref, sêr y nos, dol ac afon, môr a mynydd; corwynt Kate ac enfys liwgar.

Mae angen help arnom i gofio mai'r bywyd ysbrydol, nid y materol, sydd o bwys. Nid clec y geiniog, ond gwres y fflam yw gwerth dyn, a gwerth y ddynoliaeth hefyd. Gyda phawb a phopeth yn pwysleisio'r materol, diolchwn o'r newydd ar fore Sul am y cyfle i weld tuhwnt i furiau Mamon a masnach, miri a medd.

Cofiwn am rheini sy'n poeni heddiw; rheini sy'n galaru, sy'n ofni, sy'n newynu; rheini sydd ar goll. Pobl yn dioddef o achos rhyfel a mudo o'r Dwyrain Canol i Ewrop. Dynion yn dioddef o achos lliw eu croen, neu blas eu crefydd, neu llif eu hiaith; meddyliwn am bobl Paris y bore hwn. Ymbilwn ar y gwleidyddion i sylweddoli mai’r cam cyntaf tuagat greu byd gwâr yw gwrthod lladd cyd-ddyn ar unryw gyfrif; mai brawdgarwch a chydraddoldeb yw’r ateb, nid bom a chyfalaf.

Gofynwn am y nerth i geisio byw yn dda, i gynal y fflam; i drin eraill fel y dymunem ni gael ein trin ein hunain; i dro’i foch, a rhoi’r olaf yn flaenaf; i roi o’n gorau, ac i roi â gwên.

Gofynwn hyn yn enw’r un a’n dysgodd, pan yn gweddïo, i ddweud gyda’n gilydd: *Ein Tad, yn y nefoedd, ...*

**CYHOEDDI A CHASGLU**

Yn draddodiadol, dywedir fod yna dri-ar-ddeg o lythyron Paul yn y Testament Newydd, yn ymestyn o'r Rhufeiniaid i Philemon. Mae’r gwybodusion yn weddol sicr mai Paul ei hun oedd awdur saith o’r llythyron (gan gynwys y llythyr at y Rhufeiniad - a gyfrifid fel y pwysicaf - dau lythr at y Corinthiaid a’r llythr at y Galatiaid). Mae Beibl William Morgan yn nodi Paul fel awdur Hebreaid hefyd, ond nid yw testun y llythr ei hun yn enwi’r awdur; tybia rhai mai gwaith Luc yw.

Mae ‘na cryn ddadlau am fanylion bywyd Paul hefyd. Mae’n debyg iddo gael ei eni yn ninas Tarsus (yng ngwlad Twrci heddiw) o deulu Iddewig, ond roedd yn ddinesydd Rhufeinig hefyd. Yn ol arfer y cyfnod, am ei fod yn Iddew ac yn ddinesydd Rhufeinig ar yr un pryd, roedd gan Paul ddau enw: enw Iddewig, Saul, ac enw Rhufeinig, Paul. Mae’n eironig iawn i feddwl, yn y byd sydd ohoni, mai dyn o Dwrci oedd Paul. Fe’i anwyd, ym mhob tebyg, tua’r un flwyddyn â’r Iesu. Mae’n bosib y cafodd addysg o dan Gamaliel yn Jerwsalem; yn ol y son roedd yn ddisgybl disglair. Mae’n debyg mai pharasead gwrth-Gristnogol oedd yn ei ddyddiau cynar. Yn ol llyfr yr Actau, roedd yn bresenol pan yn ryw 33 oed ym merthyrdod Steffan. Ond wedyn, naill nai ar y ffordd i Ddamascus neu yn Namascus ei hun, cafodd dröedigaeth. Yn ol llyfr yr Actau:

*Yr oedd Saul yn dal i chwythu bygythion angheuol yn erbyn disgyblion yr Arglwydd, ac fe aeth at yr archoffeiriad a gofyn iddo am lythyrau at y synagogau yn Namascus, fel os byddai'n cael hyd i rywrai o bobl y Ffordd, yn wŷr neu'n wragedd, y gallai eu dal a dod â hwy i Jerwsalem. Pan oedd ar ei daith ac yn agosáu at Ddamascus, yn sydyn fflachiodd o'i amgylch oleuni o'r nef. Syrthiodd ar lawr, a chlywodd lais yn dweud wrtho, “Saul, Saul, pam yr wyt yn fy erlid i?” Dywedodd yntau, “Pwy wyt ti, Arglwydd?” Ac ebe'r llais, “Iesu wyf fi, yr hwn yr wyt ti yn ei erlid. Ond cod, a dos i mewn i'r ddinas, ac fe ddywedir wrthyt beth sy raid iti ei wneud.” Yr oedd y dynion oedd yn cyd-deithio ag ef yn sefyll yn fud, yn clywed y llais ond heb weld neb. Cododd Saul oddi ar lawr, ond er bod ei lygaid yn agored ni allai weld dim. Arweiniasant ef gerfydd ei law i mewn i Ddamascus. Bu am dridiau heb weld, ac ni chymerodd na bwyd na diod.*
*[ACTAU 9: 1-9]*

*I gryd moes ger Damascus y ganwyd*
*Gwir genad, mab Tarsus*
*O’r saint, a’i fraint troi ar frys*
*I rodio’r ffordd gariadus.*

Mae rhaid bod yn ofalus iawn yn dehongli manylion llythyron Paul. Ysgrifenwyd rhagymadrodd ardderchog ar destun Paul yn ddiweddar gan E.P. Sanders. Gwerth ei ddarllen. Mae’n ddiddorol dros ben ond yn ddyrys. I ddeall yn iawn, rhaid bod genym gyd-destun y gyfnod, a dealltwriaeth o ddiwylliant y Dwyrain Agos. Rhaid cofio mai dyn oedd Paul; mae ei ddynoliaeth i’w weld rhwng geiriau’r adnodau: ei obaith, ei ffydd a’i ofidiau; ei anghystonderau; ei ffaeleddau. Dyddiau Paul oedd dyddiau’r Iesu: roedd Cristnogaeth yn grefydd newydd, ac yn Iddewig ei natur; sut oedd cyflwyno’r grefydd i’r Iddew a’r cenedl-ddyn ar yr un pryd? Areithiau i’r athronwyr, neu sgwrsio ‘da’r werin wrth wnïo pebyll? Ac roedd dyfodiad y Meseia wirioneddol gerllaw: rhaid oedd gweithio ar fyrder; nid oedd amser i hongian o gwmpas; rhaid oedd lledu’r efengyl i Sbaen!

*Ei gais oedd bod yn gyson, yn dryw*
*I Dduw yr Iddewon;*
*Ond dal, rhaid oedd newid tôn*
*I ddenu'r cenedl-ddynion.*

Wedi ei droedigaeth, rhoddodd Paul ei fywyd i ledu'r efengyl. Pan yn 36 oed, mae'n debyg yr aeth i Jerwsalem am gyfnod byr ac yna'n ôl i Darsus. Wedyn mae 'na fwlch o ryw ddeng mlynedd. Pan y 46 oed, aeth Barnabas ag ef i Antioch (sef Antakya yn Nhwrci erbyn hyn; lle mae arweinwyr gwledydd y G20 yn cwrdd heddiw, y funed hon). A dyma ddechrau cyfnod teithiau Paul. Roedd yn 47 neu 48 oed pan ysgrifenodd ei lythyr cyntaf at y Galatiaid (O Antioch i dde Galatia - eto yn Nhwrci heddiw - yn ateb i'r Iddewion a geisiai ychwanegu defodau Iddewig at ffydd). Y daith genhadol gyntaf.

Ffydd yn Nuw a'r Iesu oedd canolbwynt athroniaeth Paul. Nid oedd angen rheolau dyn na'r "gyfraith". Trechwyd y rhain gan yr Iesu. Dim ond ffydd sydd o bwys. Cafodd y neges hon grin effaith ar grefyddwyr ac athronwyr ar hyd yr oesoedd. Yn wir, egwyddor *sola fide* ("drwy ffydd yn unig") sy'n gwahaniaethu'r Protestaniaid yn benaf oddiwrth yr Eglwys Gatholig a'r Eglwys Orthodocs. Yn ol yr hanes, myfyriodd Martin Luther yn ddwys ar lythyron y Rhufeiniaid, yr Hebreaid a'r Galatiaid ar ddechrau'r unfed ganrif ar bymtheg. Daeth i'r casgliad, drwy lythyron Paul, mai ond Duw sy'n gallu maddau pechodau dyn. Duw sy'n ben, nid dynion o'r Eglwys Gatholig yn arbenig. Mewn gair, bod maddeuant ar gael i bob un sy'n dilyn y ffordd, yn uniongyrchol drwy ffydd.

*Gyfeillion, digon yw'r dydd ini fyw*
*Yn Nuw'n ol ein hawydd;*
*Mwynach na chopa'r mynydd*
*Yw eiliad cyffyrddiad ffydd.*

Roedd Paul yn ryw 49 i 52 oed yng nghyfnod yr ail daith genhadol. Ysgrifenodd 1 Thesaloniaid (O Gorinth – yng Nghroeg - i Thesalonica – yng Ngroeg eto - i anog Cristnogion i fyw'n sanctaidd mewn gobaith) a 2 Thesaloniaid (O Gorinth i Thesalonica, yn ateb y gau-ddysgeidiaeth fod dydd yr Arglwydd wedi digwydd eisoes).

Mae E.P. Sanders yn crynhoi neges Gristnogol Paul fel a ganlyn: Danfonodd Duw ei Fab Iesu i'r byd; Croeshoeliwyd yr Iesu dros bechodau'r ddynoliaeth; Atgyfododd yr Iesu gan drechu marwolaeth; Bydd y Mab yn dychwelid; Bydd bobl â ffydd yn byw am byth; Rhaid i bobl o ffydd ddilyn y ffordd:

*Llawenhewch bob amser. Gweddïwch yn ddi-baid. Ym mhob dim rhowch ddiolch, oherwydd hyn yw ewyllys Duw yng Nghrist Iesu i chwi. Peidiwch â diffodd yr Ysbryd; peidiwch â dirmygu proffwydoliaethau. Ond rhowch brawf ar bob peth, a glynwch wrth yr hyn sydd dda. Ymgadwch rhag pob math o ddrygioni.*

*Bydded i Dduw'r tangnefedd ei hun eich sancteiddio chwi yn gyfan gwbl, a chadw eich ysbryd a'ch enaid a'ch corff yn gwbl iach a di-fai hyd ddyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist! Y mae'r hwn sy'n eich galw yn ffyddlon, ac fe gyflawna ef hyn.*
*[1THESALONIAID 5: 16-23]*

Roedd Paul yn 52-56 oed yng nghyfnod y drydedd daith genhadol. Ysgrifenodd 1 Corinthiaid (O Effesus – yn Nwrci - i Gorinth, er pwysleisio mai cariad sy'n uno rhaniadau'r eglwys) a 2 Corinthiaid (O Philipi – yng Ngroeg - i Gorinth, i amddiffyn ei weinidogaeth a rhoi rhybudd rhag twyllwyr) a Rhufeiniaid (O Gorinth i Rufain, i esbonio'r Efengyl yn drefnus a chynhwysfawr; hwn oedd y "magnum opus").

*Ac yr wyf am ddangos i chwi ffordd ragorach fyth. Os llefaraf â thafodau meidrolion ac angylion, a heb fod genyf gariad, efydd swnllyd ydwyf, neu symbal aflafar. Ac os oes genyf ddawn proffwydo, ac os wyf yn gwybod*

*y dirgelion i gyd, a phob gwybodaeth, ac os oes genyf gymaint o ffydd nes gallu symud mynyddoedd, a heb fod genyf gariad, nid wyf ddim. Ac os rhof fy holl feddianau i borthi eraill, ac os rhof fy nghorff yn aberth, a hyny er mwyn ymffrostio, a heb fod genyf gariad, ni wna hyn ddim lles imi.*

*Y mae cariad yn amyneddgar; y mae cariad yn gymwynasgar; nid yw cariad yn cenfigenu, nid yw'n ymffrostio, nid yw'n ymchwyddo. Nid yw'n gwneud dim sy'n anweddus, nid yw'n ceisio ei ddibenion ei hun, nid yw'n gwylltio, nid yw'n cadw cyfrif o gam; nid yw'n cael llawenydd mewn anghyfiawnder, ond y mae'n cydlawenhau â'r gwirionedd. Y mae'n goddef i'r eithaf, yn credu i'r eithaf, yn gobeithio i'r eithaf, yn dal ati i'r eithaf.*

*Nid yw cariad yn darfod byth. Ond proffwydoliaethau, fe'u diddymir hwy; a thafodau, bydd taw arnynt hwy; a gwybodaeth, fe'i diddymir hithau. Oherwydd anghyflawn yw ein gwybod ni, ac anghyflawn ein proffwydo ni. Ond pan ddaw'r hyn sy'n gyflawn, fe ddiddymir yr hyn sy'n anghyflawn. Pan oeddwn yn blentyn, fel plentyn yr oeddwn yn llefaru, fel plentyn yr oeddwn yn meddwl, fel plentyn yr oeddwn yn rhesymu. Ond wedi dod yn ddyn, yr wyf wedi rhoi heibio bethau'r plentyn. Yn awr, gweld mewn drych yr ydym, a hyny'n aneglur; ond yna cawn weld wyneb yn wyneb. Yn awr, anghyflawn yw fy ngwybod; ond yna, caf adnabod fel y cefais inau fy adnabod. Mewn gair, y mae ffydd, gobaith, cariad, y tri hyn, yn aros. A'r mwyaf o'r rhain yw cariad.*
*[1 CORINTHIAID 13:1-13]*

Pan yn ryw 56 i 59 oed, cafodd ei arestio yn Jerwsalem a'i garcharu yng Ngheserea. Wedyn, pan yn 60 i 61 oed, teithiodd fel carcharor i Rufain a phrofi llongddrylliad ym Malta ar y ffordd. Pan yn garcharor yn Rhufain, ysgrifenodd Colosiaid (i Golosae - yn Nhwrci - i ateb y Gnosticiaid a honai fod angen mwy na Iesu Grist arnom), Philemon (O Rufain i Golosae eto, yn apêl i Philemon i dderbyn Onesimus ei gaethwas, yn ôl), Effesiaid (O Rufain i Effesus – yn Nhwrci er nodi cyfoeth bendithion Crist i'r eglwys) a Philipiaid (O Rufain i Philipi, mewn diolch am rodd ac i anog llawenydd).

Wedi cyfnod llyfr yr Actau, pan yn ryw 62 i 66 oed, gollwngwyd Paul yn rhydd o Rufain. Teithiodd i sawl man gan gynwys Creta. Ysgrifenodd 1 Timotheus (I Effesus, i roi cyngor i Timotheus ynglyn â'i weinidogaeth a'r eglwys) a Titus (sef cymorth i Titus i gael trefn ar yr eglwysi yn Creta). Wedyn , pan yn 67 oed, fe'i ail-garcharwyd, pwr dab, yn Rhufain. Ysgrifenodd 2 Timotheus (ei sialens olaf i Timotheus); ac yn ol pob tebyg, cafodd ei ddienyddio yn y carchar yno.

Mae esiampl Paul yn hysbys i bob Cristion wrth gwrs, o bob enwad, yn ganllaw i fywydau miliynau drwy'r byd am ddwy fil o flynyddoedd. Ta waeth camsyniadau'r gorffenol, dangosodd Paul fod 'na fodd newid pethau; fod troedigaeth yn bosib; fod y golau ar gael i bawb. Drwy ymdrechion Paul yn benaf y lledwyd neges yr Iesu o Jeriwsalem i'r byd. Neges cariad: cariad at Dduw, a chariad at gyd-ddyn.

*Y nef caru cyd-ddyn yw - cân awdlau'r*
*Cenhedloedd yn hyglyw;*
*A chynig reit unigryw*
*Ar hyd oes yw caru Duw.*

Teithiodd Paul yn helaeth drwy'r Dwyrain Agos a de Ewrop dros gyfnod o ddeng mlynedd ar hugain, yn lledu'r efengyl; siwrnai faith. Siwrnai yw bywyd pob yr un ohonom, siwrnai ysbrydol yn chwilio am y ffordd yng ngolau'r Beibl a'r Testament Newydd; yng ngeiriau llythyron Paul. Dwi wedi bod ar siwrnai fach hefyd, gyda'r nos dros yr wythnosau diwethaf. Dechreuais y siwrnai heb wybod llawer o gwbl am hanes Paul; heb ystyried ei

lythyron fel unedau cyflawn; heb ystyried neges y llythyron yn ei chyfanrwydd. Swirnai yn chwilio am ganllaw, yn chwilio am gyngor a chyd-destun. Dwi wedi mwynhau'r darllen, a mwynhau dim mwy na'r canlynol:

*[RHUFEINIAID 12: 1-21] Am hyny, yr wyf yn ymbil arnoch, gyfeillion, ar sail tosturiaethau Duw, i'ch offrymu eich hunain yn aberth byw, sanctaidd a derbyniol gan Dduw. Felly y rhowch iddo addoliad ysbrydol. A pheidiwch â chydymffurfio â'r byd hwn, ond bydded ichwi gael eich trawsffurfio trwy adnewyddu eich meddwl, er mwyn ichwi allu canfod beth yw ei ewyllys, beth sy'n dda a derbyniol a pherffaith yn ei olwg ef.*
*Oherwydd, yn rhinwedd y gras y mae Duw wedi ei roi i mi, yr wyf yn dweud wrth bob un yn eich plith am beidio â'i gyfrif ei hun yn well nag y dylid ei gyfrif, ond bod yn gyfrifol yn ei gyfrif, ac yn gyson â'r mesur o ffydd y mae Duw wedi ei roi i bob un. Yn union fel y mae genym aelodau lawer mewn un corff, ond nad oes gan yr holl aelodau yr un gwaith, felly hefyd yr ydym ni, sy'n llawer, yn un corff yng Nghrist, ac yn aelodau bob un i'w gilydd. A chan fod genym ddoniau sy'n amrywio yn ôl y gras a roddwyd i ni, dylem eu harfer yn gyson â hyny. Os proffwydoliaeth yw dy ddawn, arfer hi yn gymesur â'th ffydd. Os dawn gweini ydyw, arfer hi i weini. Os addysgu yw dy ddawn, arfer dy ddawn i addysgu, ac os cynghori, i gynghori. Os wyt yn rhanu ag eraill, gwna hyny gyda haelioni; os wyt yn arweinydd, gwna'r gwaith gydag ymroddiad; os wyt yn dangos tosturi, gwna hyny gyda llawenydd.*

*Bydded eich cariad yn ddiragrith. Casewch ddrygioni. Glynwch wrth ddaioni. Byddwch wresog yn eich serch at eich gilydd fel cymdeithas. Rhowch y blaen i'ch gilydd mewn parch. Yn ddiorffwys eich ymroddiad, yn frwd eich ysbryd, gwasanaethwch yr Arglwydd. Llawenhewch mewn gobaith. Safwch yn gadarn dan orthrymder. Daliwch ati i weddïo. Cyfranwch at reidiau'r saint, a byddwch barod eich lletygarwch. Bendithiwch y rhai sy'n eich erlid, bendithiwch heb felltithio byth. Llawenhewch gyda'r rhai sy'n llawenhau, ac wylwch gyda'r rhai sy'n wylo. Byddwch yn gytûn ymhlith eich gilydd. Gochelwch feddyliau mawreddog; yn hytrach, rhodiwch gyda'r distadl. Peidiwch â'ch cyfrif eich hunain yn ddoeth. Peidiwch â thalu drwg am ddrwg i neb. Bydded eich amcanion yn anrhydeddus yng ngolwg pawb. Os yw'n bosibl, ac os yw'n dibynu arnoch chwi, daliwch mewn heddwch â phawb. Peidiwch â mynu dial, gyfeillion anwyl, ond rhowch ei gyfle i'r digofaint dwyfol, fel y mae'n ysgrifenedig: " 'Myfi piau dial, myfi a dalaf yn ôl,' medd yr Arglwydd." Yn hytrach, os bydd dy elynion yn newynu, rho fwyd iddynt; os byddant yn sychedu, rho iddynt beth i'w yfed. Paid â goddef dy drechu gan ddrygioni. Trecha di ddrygioni â daioni.*

Er mwyn Ei Enw, A-men.

A gawn ni ddiweddu'r oedfa drwy gyd-ganu EMYN rhif 185.

**EMYN 185 (Mae dy air yn abl i'm harwain)**

*Yn ddefod, yn weddi ddwyfol – a iâs*
*Cael Iesu'n y ganol,*
*Rho oslef y nef yn ôl*
*I'm mynwes, Olau Mewnol.*

Bydded i ras ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw, a chymdeithas Ei lân ysbryd aros gyda ni oll, yn awr ac am byth, A-men.